



Ydych chi'n barod ar gyfer Her Matrix 2020?

Mae Her Matrix Genedlaethol 2020 ar droed. Mae'r gystadleuaeth sgiliau seiber hon ar agor i bob plentyn rhwng 11 ac 17 oed yn y Deyrnas Unedig. Bydd ymgeiswyr yn cystadlu mewn un o ddau gategori oedran, 11-14 oed neu 15-17 oed.

Gêm ddigidol ddifyr fydd cam cyntaf yr Her Matrix, a gaiff ei chynnal rhwng 20 Ionawr a 14 Chwefror 2020.

Bydd yr Her Matrix yn profi gwybodaeth cyfranogwyr am y Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron, sut i gadw'n ddiogel ar-lein ac yna bydd yn gwthio eu sgiliau seiber i'r eithaf. Bydd y cam hwn yn cymryd tua 35 munud i'w gwblhau.

Ar ôl i gam un gau ddydd Iau 14 Chwefror, bydd y chwaraewyr gorau o bob rhanbarth yn cael eu gwahodd i ddigwyddiad bach byw lle y byddant yn cwblhau nifer o weithgareddau heriol wedi'u cynllunio a'u cyflwyno gan y diwydiant seiberddiogelwch.

Bydd pob un o'r rhanbarthau yn dewis eu tri chwaraewr gorau ym mhob grŵp oedran a fydd wedyn yn mynd ymlaen i gynrychioli eu rhanbarth yn y rownd derfynol fyw genedlaethol.

Cynhelir y rownd derfynol fyw yn ne Lloegr ddydd Sadwrn 4 Gorffennaf; darperir cyfraniad tuag at gostau teithio. Caiff manylion llawn y lleoliad eu cyhoeddi'n fuan.

Mae'r Her Matrix wedi'i chynllunio i ddwyn dyfodol seiberddiogelwch a'r diwydiant ynghyd; mae'r her yn cwmparu nifer o feincnodau Gatsby.

Ein nod yw rhoi cyfle i bobl ifanc yn y Deyrnas Unedig ddysgu am ddefnyddio eu sgiliau cyfrifiadurol yn gyfreithlon a'u rhoi ar brawf er mwyn cystadlu ar gyfer lle yn y rownd derfynol fyw lle y byddant yn cyfarfod â nifer o brif arbenigwyr y diwydiant.

Er mwyn cefnogi'r fenter hon, byddwn yn cynnal Sioeau Teithiol Seiber rhwng 20 Ionawr a 14 Chwefror 2020. Bydd pob sesiwn yn cynnwys cyflwyniad rhyngweithiol o'r her, yn ogystal â mewnbwn gan gynrychiolwyr yr heddlu. Bydd pob sesiwn yn para tua 45 munud.

Gobeithio y bydd y deunyddiau hyrwyddo rydym wedi'u cynnwys yn eich helpu i hyrwyddo a chyflawni'r her.

Mae pob plentyn rhwng 11 ac 17 oed sy'n byw yn y Deyrnas Unedig yn gymwys i gymryd rhan.

I gael rhagor o wybodaeth, ac i gael adnoddau y gellir eu lawrlwytho, ewch i www.matrix-challenge.uk

Helpwch ni drwy gefnogi a hyrwyddo Her Matrix 2020 a defnyddio'r hashnod #matrixchallenge2020 ar y cyfryngau cymdeithasol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r her neu'r Sioeau Teithio Seiber, cysylltwch â ni drwy e-bost yn matrix@yhrocu.pnn.police.uk Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i'ch cynrychiolydd rhanbarthol, a bydd yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

